

Cyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Materion Gwledig

Dyddiad: 1 Mai 2018

Lleoliad: Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

Simon Thomas AC – Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Paul Davies AC – Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Mandy Jones AC – Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Julian Atkins – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Tegryn Jones – Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Jim Wilson – Cynghair Tirweddau Dynodedig Cymru
Dennis Matheson – Cymdeithas y Ffermwyr Tenant Cymru
Rebecca Williams – Cymdeithas y Tirfeddianwyr
Stuart Taylor – Swyddfa'r Post
John Davies – NFU Cymru
Huw Thomas – NFU Cymru
Ifan Lloyd – Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru
Rachel Evans – Cynghair Cefn Gwlad
Maliha Majeed – Cyswllt Amgylchedd Cymru
Liz Smith – Cyswllt Amgylchedd Cymru
Martin Bishop – Confor
Rachel Sharp – Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Cymru

1. Cytuno i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Materion Gwledig

Cytunwyd i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Materion Gwledig, gyda'r diben a ganlyn "Darparu fforwm agored gyda ffocws penodol a realistig ar y materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyfoes sy'n effeithio ar ddyfodol Cymru wledig."

Mae'r Aelodau Cynulliad a ganlyn wedi cytuno i fod yn aelodau o'r Grŵp:

- Simon Thomas AC – Plaid Cymru
- Llyr Gruffydd AC – Plaid Cymru
- Sian Gwenllian AC – Plaid Cymru
- Paul Davies AC – Ceidwadwyr
- Vikki Howells AC – Llafur
- Mandy Jones AC – Annibynnol

Roedd Aelodau Cynulliad eraill wedi mynegi diddordeb mewn bod yn aelodau, a byddent yn cael eu croesawu yn y dyfodol.

2. Ethol Cadeirydd

Cynigiwyd enw Simon Thomas AC gan Paul Davies AC, ac eiliwyd hynny gan Mandy Jones AC, a chafodd ei ethol i gadeirio'r Grŵp.

3. Penodi Ysgrifennydd

Penodwyd Tegryn Jones, ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru, yn Ysgrifennydd.

4. Pynciau / Amserlen cyfarfodydd y dyfodol

Gofynnodd y Cadeirydd am awgrymiadau ar gyfer pynciau i'w trafod yn y dyfodol. Cafwyd yr awgrymiadau a ganlyn:

- Bil Amaethyddiaeth;
- Cyllid ar gyfer ffermydd mynydd gwledig;
- Cyllid ar ôl Brexit;
- Effaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy;
- Nwyddau cyhoeddus a manteision cyhoeddus;
- Mynediad i gefn gwlad;
- Brandio Cymru;
- Effaith polisi'r Llywodraeth, ee Bergen Twf Canolbarth Cymru, Polisi Cynllunio;
- Polisi prawfesur gwledig;
- Cynnal mynediad at wasanaethau, e.e. Swyddfeydd Post, band eang;
- Darparu trafnidiaeth gyhoeddus / trafnidiaeth gymunedol;
- Darparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig;
- Prinder sgiliau ar ôl Brexit, e.e. milfeddygon.

Cytunwyd i roi sylw i'r materion a ganlyn fel blaenoriaeth:

- Y Bil Amaethyddiaeth, a nwyddau cyhoeddus a manteision cyhoeddus;
- Brandio Cymru;
- Gyrwyr economaidd ehangach a mynediad at wasanaethau;
- Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Cytunodd y Grŵp i gyfarfod unwaith bob tymor Cynulliad, ac i geisio trefnu cyfarfod yn y Sioe Frenhinol. Os nad oedd hynny'n bosibl, dylid ystyried trefnu cyfarfod yn naill ai Sioe Sir Benfro neu Sioe Môn.

Cytunodd y Grŵp hefyd i ystyried cyfarfodydd ar y cyd gyda Grwpiau Trawsbleidiol eraill lle bo hynny'n briodol.

5. Daeth y cyfarfod i ben ac estynnodd John Davies, Llywydd NFU Cymru, wahoddiad i bawb i ymuno â'r 'Dathliad o Fwyd Cymru' a drefnwyd yn y Senedd gan NFU Cymru.